# Pecyn Cymorth Gwerthuso

## Awgrymiadau Gwych: cyfweliadau a grwpiau ffocws

Cyhoeddwyd 10 Tachwedd 2023

Gwneud synnywr o'r cyfryngau

# Cynnwys


**Awgrymiadau Gwych: cyfweliadau a grwpiau ffocws .................................. 2**

Cyflwyniad ........................................................................................................ 2

Y prif faterion ................................................................................................... 3

Dewis eich methodoleg ...................................................................................... 3

Dadansoddi ....................................................................................................... 4

**Enghraifft o ganllawiau pwnc cyfweliad .................................................... 5**

Cyflwyniad (5-10 munud) ................................................................................... 5

Trosolwg o'r ymyriad (10 munud) ..................................................................... 4

Mynd drwy'r cyfweliad yn fanwl (15 munud) ...................................................... 7

Effeithiau hirdymor (10 munud) ......................................................................... 8

Cloi (5 munud) .................................................................................................. 9

**Pethau i'w hystyried ............................................................................... 10**

Pethau i'w gwneud: ......................................................................................... 10

Pethau i beidio â'u gwneud: ............................................................................. 10

# Awgrymiadau Gwych: cyfweliadau a grwpiau ffocws

## Cyflwyniad

Mae cyfweliadau a grwpiau ffocws yn ddulliau ansoddol y gellir eu defnyddio i gasglu gwybodaeth ar gyfer gwerthusiadau. Mae cyfweliadau'n ddefnyddiol er mwyn casglu gwybodaeth fanwl gan unigolion, tra mae grwpiau ffocws yn ddefnyddiol er mwyn casglu barn gyffredin a chynhyrchu syniadau ac argymhellion. Gall y ddau ddull ddarparu dealltwriaeth werthfawr o effaith ymyriad, yn ogystal â'n galluogi i ddysgu sut y gellid gwella'r ymyriad.

Yn wahanol i arolygon a chwisiau, mae dulliau ansoddol yn caniatáu i bobl egluro pethau yn eu geiriau eu hunain. Gall hyn ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o brofiad y cyfranogwyr a pha effaith y mae'r ymyriad wedi ei gael, a sut y mae hynny'n gysylltiedig â'u profiadau bob dydd a'r cyd-destun ehangach. Mae'n golygu bod modd cael darlun mwy cyfannol, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Gall clywed am yr effaith yng ngeiriau'r bobl eu hunain hefyd fod yn fwy pwerus, a gall roi enghreifftiau 'go iawn' i ddangos y gwahaniaeth y mae'r ymyriad wedi'i wneud, neu i helpu i egluro pam na chafodd yr effaith ddisgwyliedig.

Cynhelir cyfweliadau a grwpiau fel arfer ag is-set fach o'r cyfranogwyr mewn ymyriad. Gallwch naill ai ddewis cyfranogwyr yn fwriadol – dewis pobl benodol i'ch helpu i ddeall cwestiynau penodol – neu ar hap. Er na fyddwch yn gallu cynnwys pawb fel arfer, dylech geisio gwrando ar safbwyntiau amrywiol; mae'n hanfodol nad ydych yn 'dewis a dethol' y bobl rydych yn credu y byddant yn dweud beth rydych chi eisiau ei glywed, gan y bydd hyn yn lleihau eich hygrededd.

Yn aml iawn defnyddir y dulliau hun ar y cyd ag arolwg neu gwis, gan fod data ansoddol ddim ond yn eich galluogi i adrodd am welliant sy'n cael ei adrodd gan yr unigolyn ei hun, a allai fod yn llai grymus na thystiolaeth feintiol. Er hyn, gall cael data ansoddol i egluro pam y mae canlyniad wedi'i sicrhau (neu heb ei sicrhau) fod yn adnodd gwerthfawr iawn. Efallai hefyd y byddech yn hoffi ystyried cynnal cyfweliadau neu drafodaethau grŵp ar ôl treialu'r ymyriad, er mwyn cael adborth ynglŷn â sut y gellir ei wella rhag ofn bod unrhyw 'gamau cyflym ymlaen' y gallwch eu rhoi ar waith cyn y sesiynau diweddarach.



## Y prif faterion

- Crëwch amgylchedd lle mae cyfranogwyr yn debygol o roi adborth gonest. Gallai hyn gynnwys un person yn cynnal yr ymyriadau a pherson gwahanol yn arwain y cyfweliadau.
- Mae cyfweliadau a grwpiau yn cymryd mwy o amser cyfranogwyr nag arolygon. Ystyriwch a allai hyn gyfyngu ar y niferoedd sy'n cytuno i gymryd rhan a meddyliwch a allwch gynnig rhywbeth i'w hannog neu eu cynorthwyo i gymryd rhan (e.e. gofal plant).
- Dylai'r sgwrs lifo'n rhwydd; does dim angen o reidrwydd i chi ofyn yr holl gwestiynau fel y maent wedi eu hysgrifennu yn eich canllaw, a does dim angen eu gofyn yn yr un drefn. Er hyn, mae'n hanfodol bod y cwestiynau'n agored ac nad ydynt yn rhai arweiniol, ac mae angen ymarfer hyn.
- Dewiswch y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y grŵp – gallwch ddefnyddio'r ffôn, ond gall Zoom neu Teams (neu wyneb yn wyneb) fod yn ddefnyddiol gan eich bod yn gallu gweld iaith corff y sawl sy'n ymateb.
- Paratowch gynllun yn amlinellu sut i ymdrin ag unrhyw ddatgeliadau diogelu, a gwnewch yn siŵr bod y sawl sy'n ymateb yn gwybod y gallai fod yn rhaid i chi rannu gwybodaeth gyfrinachol os ydych yn teimlo ei fod yn wynebu risg o niwed.

## Dewis eich methodoleg

Fel y nodwyd uchod, gallwch gyfweld pobl ar eu pen eu hunain, mewn parau neu mewn grwpiau. Dyma rai pethau sy'n werth eu hystyried.

1. **Pa fath o ddata y mae angen i chi eu casglu?** Os yw'r pwyslais ar storïau personol, profiadau a dysgu unigol, neu os ydych yn trafod mater sensitif, mae'n debyg y bydd cyfweliadau'n well. Os oes arnoch eisiau i bobl fownsio syniadau o gwmpas a bod yn greadigol, gallai grwpiau fod yn well.
2. **Gyda phwy rydych yn siarad?** Gall plant a phobl ifanc fod yn sensitif mewn grwpiau neu gyfweliadau. Ar eu pen eu hunain gallent fod yn nerfus, a gallent gael anhawster i siarad yn agored, ond gallent deimlo fel hyn mewn grŵp mawr hefyd. O ganlyniad, gall cyfweliadau pâr (gyda rhywun maent yn ei adnabod, er enghraifft rhywun arall o'r gweithdy) fod yn ateb da.
3. **Ar-lein neu wyneb yn wyneb?** Mantais cyfarfod wyneb yn wyneb yw y gallwch osod tasgau yn rhwydd a darllen iaith corff pobl. Os byddwch yn dewis gwneud grŵp ar-lein, gwnewch yn siŵr bod unrhyw un sy'n teimlo'n nerfus ynglŷn â'r feddalwedd yn cael cyfle i roi cynnig arni ymlaen llaw fel eu bod yn gwybod y bydd yn gweithio ar y diwrnod, a cheisiwch ddefnyddio meddalwedd y mae pobl yn gyfarwydd â hi yn barod ac nad oes angen ei llwytho i lawr.
4. **Gyda faint o bobl rydych am siarad?** Gan fod cyfweliadau'n cymryd mwy o amser nag arolygon meintiol, byddwch fel arfer yn cysylltu â llai o bobl, ond yn mynd i fwy o ddyfnder. Os oes arnoch eisiau adrodd am brofiadau pobl â nodweddion gwahanol, yn ddelfrydol byddai gennych o leiaf bedwar cyfweliad manwl, neu ddau grŵp, â phobl sydd â'r nodwedd honno. Dylai gwerthusiad bach, yn ddelfrydol, gynnwys o leiaf chwe chyfweliad, ond cynghorir isafswm o dri grŵp.

5. **Pa brofiad sydd gan yr ymchwilydd?** Mae cyfweliadau fel arfer yn haws i'w trin na grwpiau, ac o ganlyniad mae llai o risg. Yn ddelfrydol, ni fyddech yn gwneud y naill na'r llall heb rywfaint o hyfforddiant priodol neu drwy weithio gyda chyfwelydd sydd wedi'i hyfforddi. Os byddwch yn dewis gwneud cyfweliadau, byddwch yn cael mwy o ryngweithiadau ar wahân felly ni fydd un cyfweliad aflwyddiannus yn gymaint o broblem.

   Yn ddelfrydol, ar gyfer grwpiau, ni fyddai gennych fwy nag wyth cyfranogwr mewn ystafell, neu chwe chyfranogwr ar-lein yr un pryd. Os oes mwy o bobl na hyn, rhannwch nhw'n ddau neu fwy o grwpiau bach, fel bod pawb yn cael cyfle i ddweud ei farn. Gall rhoi pobl sydd â nodweddion tebyg (e.e. yr un oed, rhywedd, ac ati) yn yr un grŵp fod yn syniad da oherwydd bydd ganddynt rywbeth yn gyffredin.

---

## Dadansoddi

Mae'n bwysig cael cynllun i lywio'r sgwrs a sicrhau y gallwch gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen. Gellir gwneud hyn drwy greu canllawiau trafodaeth cyfweliad, sy'n helpu'r hwylusydd i ofyn cwestiynau perthnasol a phenodol a chadw'r sgwrs ar y trywydd cywir. Fodd bynnag, yn wahanol i arolwg, dylech ddefnyddio hyn fel canllaw yn hytrach na sgript, a lle bo modd dylech ddefnyddio iaith y mae'r bobl eu hunain yn ei defnyddio.

Dyma rai canllawiau cyffredinol er mwyn datblygu canllaw i bwnc:

- Dechreuwch bob amser â chwestiwn hawdd y bydd pobl yn gallu ei ateb (ac os ydych mewn grŵp, gwnewch yn siŵr bod pawb yn ateb, fel bod pawb yn cael cyfle i siarad yn yr ychydig funudau cyntaf).
- Dechreuwch â chwestiynau cyffredinol cyn mynd ymlaen i gael mwy o fanylion am feysydd penodol.
- Pan fyddwch wedi gofyn ychydig o gwestiynau cyffredinol, ceisiwch ragweld llif rhesymegol fel bod y sgwrs yn gwneud synnwyr i'r cyfranogwr (e.e. dechreuwch ar ddechrau eu profiad).
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gorffen ar nodyn cadarnhaol fel nad yw'r ymatebwyr yn gadael ar bwynt isel.

# Enghraifft o ganllawiau pwnc cyfweliad

Dyma enghraifft o ganllaw pwnc, wedi'i greu ar gyfer sefydliad dychmygol Youth and Truth i'w ddefnyddio gyda disgyblion ar ôl cymryd rhan yn ei weithdai. Mae'n cynnwys enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau y byddech yn hoffi eu gofyn i gyfranogwyr ar ôl un o'ch ymyriadau.

Mae'r enghraifft ar gyfer cyfweliad. Gallai canllawiau pwnc ar gyfer grŵp ymdrin â phynciau tebyg, ond dylent fod yn hwy fel bod pawb yn cael amser i siarad, a dylent gynnwys mwy o bwyntiau ysgogi i'ch atgoffa i ofyn a oedd gan bobl eraill farn/profiadau gwahanol. Mae'n bwysig peidio â gofyn: "Ydy pawb yn cytuno?" gan fod hwn yn gwestiwn arweiniol iawn. Mae'n well dweud: "Sut mae pobl eraill yn teimlo?" neu ddod â phobl benodol i mewn wrth eu henwau: "Beth amdanat ti, Jeff?"

## Cyflwyniad (5-10 munud)

Eglurwch pwy yw'r person sy'n cyfweld, beth yw pwrpas y cyfweliad (cael adborth gonest), sut y byddwch yn casglu'r data (e.e. nodiadau ar bapur, recordiad sain neu fideo), yn eu storio, eu defnyddio a'u dileu.

Eglurwch a fydd gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol yn cael ei rhannu lle bo angen, at ddibenion diogelu.

Sicrhewch bobl nad oes atebion cywir/anghywir, ond bod gennych ddiddordeb yn yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Eglurwch eich bod yn gwerthuso'r ymyriad, nid y cyfranogwr.

Dylech hefyd eu hatgoffa y gallant ddewis peidio ag ateb cwestiwn penodol, neu roi'r gorau i gyfranogi unrhyw bryd, heb unrhyw ganlyniadau.

Efallai hefyd y byddech yn hoffi eu cyfeirio at ffynonellau cymorth os ydych yn meddwl y bydd hyn yn fuddiol.

Gofynnwch a oes ganddynt gwestiynau. Gofynnwch am gydsyniad i barhau (a gwnewch yn siŵr eich bod yn cael cydsyniad rhieni os oes angen hynny). Gall fod yn demtasiwn i frysio drwy'r rhan yma er mwyn mynd at 'y pethau pwysig'. Fodd bynnag, mae'r ffordd rydych yn egluro pwrpas y cyfweliad/grŵp yn gosod y naws ac mae'n hanfodol eich bod yn rhoi amser i'r cyfranogwr/cyfranogwyr ddeall a phrosesu'r hyn rydych yn ei ddweud.

***Enghraifft: Cyflwyniad / torri'r garw (5 munud)***

Pwyntiau ysgogi os oes angen:

- Pa wefannau / apiau maen nhw'n eu defnyddio? [holi am safleoedd penodol os yw'n berthnasol]
- Ar gyfer beth maen nhw'n eu defnyddio?
- Faint o amser maen nhw'n ei dreulio yn gwneud y pethau yma?
- Os nad yw wedi ei grybwyll: faint o amser maen nhw'n ei dreulio yn edrych ar y newyddion ar-lein?

Dewiswch gwestiwn hawdd i ddechrau. Rhowch amser iddynt siarad a pheidiwch â thorri ar eu traws yn ormodol gan fod hyn yn gallu bod yn ddiflas. Fodd bynnag, os byddwch yn cael rhywun sy'n ddistaw iawn, gwnewch yn siŵr bod gennych lawer o syniadau ar gyfer pwyntiau ysgogi eraill rhag ofn bydd eu hangen. Os nad oes angen i chi ddefnyddio'r pwyntiau ysgogi, mae hynny'n iawn.

## Trosolwg o'r ymyriad (10 munud)

***Enghraifft: Trosolwg o'r ymyriad (10 munud)***

Mi fyddwn i'n hoffi i chi ddweud ychydig wrtha i am y gweithdy y gwnaethoch chi gymryd rhan ynddo.

**Yn gyntaf, beth oedd y prif bethau a oedd yn amlwg yn y gweithdy (os oedd rhywbeth amlwg)?**

Pwynt ysgogi (os oes angen):

- Beth ydy'r pethau rydych chi'n eu cofio?
- Beth wnaethoch chi ei ddysgu (os oes rhywbeth)?

**Oes yna unrhyw beth penodol y gwnaethoch chi ei ddysgu y byddech yn hoffi pe baech yn ei wybod cyn hyn? Pam?**

Pwynt ysgogi (os oes angen):

- Beth ddigwyddodd oherwydd nad oeddech chi'n gwybod y peth yma cyn heddiw?
- Pa mor debygol yw hyn o ddigwydd eto yn y dyfodol?

**Fyddech chi'n argymell y gweithdy i'ch ffrindiau/teulu? Pam/pam ddim?**

Pwynt ysgogi (os oes angen):

- Pa fath o bobl rydych chi'n meddwl y bydden nhw'n elwa fwyaf o'r gweithdy?
- Pa wybodaeth flaenorol fyddai arnyn nhw ei hangen?

Cyn egluro'r broses yn fanwl, mae'n werth cael trosolwg o beth roedd y cyfranogwr yn ei feddwl o'r sesiwn yn gyffredinol a beth mae wedi ei gael o'r sesiwn.

Pwrpas y cwestiwn ynglŷn â beth y byddent 'yn hoffi pe baent yn ei wybod cyn hyn' yw ceisio gweld sut mae'r dysgu'n gymwys i sefyllfaoedd go iawn y mae'r cyfranogwr wedi bod ynddynt yn y gorffennol.

Mae'n dda dysgu rhywun sut i adnabod sgam buddsoddi, ond os yw rhywun erioed wedi gweld un / dangos diddordeb mewn un, mae effaith yr ymyriad yn debygol o fod yn gymharol isel).

## Mynd drwy'r cyfweliad yn fanwl (15 munud)

***Enghraifft***

Hoffwn fynd â chi yn ôl i'r dechrau nawr a mynd drwy hyn gam wrth gam.

**Sut wnaethoch chi ddod i wybod am y gweithdy?**

**Pam wnaethoch chi ddewis dod iddo?**

Pwynt ysgogi (os oes angen)

- Beth oeddech chi'n gobeithio ei gael ohono?
- Wnaethoch chi ystyried opsiynau eraill?

**Ac allwch chi ddweud ychydig bach mwy wrtha i am eich profiad ar y diwrnod?**

Pwynt ysgogi (os oes angen)

- A oedd y gweithdy'n debyg i'r hyn roeddech chi'n ei ddisgwyl (pam / pam ddim)?
- Wnaethoch chi gael beth bynnag roeddech chi eisiau ei gael o'r sesiwn (pam / pam ddim)?

**Beth oedd y prif bethau y gwnaethoch chi eu dysgu? Beth arall? Unrhyw beth arall?**

Pwynt ysgogi (os oes angen, a dim ond pan fydd yr unigolyn yn methu â meddwl am fwy o syniadau)

- Sgiliau llythrennedd cyfryngau (darllen ochrol, meddwl yn feirniadol, gwirio ffynonellau, gwirio ffeithiau, ac ati)
- Rhesymau pam y mae gwybodaeth yn anghywir ar-lein (ariannol, gwleidyddol, personol, ac ati)
- Sut i adnabod tuedd
- Sut y gellir dylunio gwybodaeth / cynnwys er mwyn cael ymateb emosiynol
- Sut mae'r rhyngrwyd yn cael ei bersonoleiddio drwy algorithmau (swigod hidlydd) a sut mae'r rhain yn gallu bwydo i mewn i'ch tueddiadau personol

Note that these prompts link directly back to the short-term outcomes identified in the theory of change. If there are a lot of outcomes you may want to select only the main ones as prompts, as otherwise the interview could feel very heavy going for the participant – they will tell you the main things they learned unprompted, and this is likely to be the most useful information for you.

***Enghraifft***

**Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r gweithdy? Gallwch fod mor greadigol ag y dymunwch!**

Eglurwch pam rydych wedi dewis y geiriau yma…

Yn ogystal â chwestiynau uniongyrchol, gall fod yn fuddiol, ar ôl i'r cyfranogwr gynhesu, gofyn cwestiynau mwy creadigol, er enghraifft gofyn i'r cyfranogwr ddewis geiriau neu dynnu llun. Bydd hyn yn ei helpu i symud oddi wrth feddylfryd rhesymegol a siarad mwy am deimladau ac emosiynau, sydd yr un mor bwysig. Gall hefyd newid yr egni a gwneud y cyfweliad yn fwy diddorol.

Os ydych yn cynnwys ymarferion o'r fath, mae'n bwysig nad ydych yn ymddiheuro wrth gyflwyno'r dasg; mae risg, os ydych chi (neu iaith eich corff) yn awgrymu y gallai'r ymarfer achosi embaras / bod yn anodd i'w wneud, y bydd y cyfranogwr yn teimlo eich bod yn anghyfforddus ac na fydd yn hyderus ynddo'i hun. Mae'n iawn i ddweud wrth y cyfranogwr nad ydych yn artist arbennig o dda, ac nad ydych yn disgwyl iddo ef neu hi fod ychwaith.

***Enghraifft***

**Pa rannau o'r gweithdy oedd y rhai mwyaf defnyddiol (os oedd rhai defnyddiol?) Pam?**

**Pa rannau o'r gweithdy oedd y rhai lleiaf defnyddiol (os oedd rhai nad oeddent yn ddefnyddiol?) Pam?**

**Beth, os oes rhywbeth, allai wneud y gweithdy'n well?**

## Effeithiau hirdymor (10 munud)

***Enghraifft***

**Ar ôl cymryd rhan yn y gweithdy, beth, os oes rhywbeth, fyddech chi'n ei wneud yn wahanol yn y dyfodol? Unrhyw beth arall?**

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r cyfranogwyr yn ei ddweud yn ddigymell, yna holwch am ganlyniadau penodol, yn deillio o'r ddamcaniaeth newid. Er enghraifft:

- I ba raddau, os o gwbl, rydych yn meddwl y byddwch yn craffu ar y graddau y mae cynnwys ar-lein yn seiliedig ar dystiolaeth, yn wiriadwy, ac yn deg? Pam/ pam ddim? Beth allai eich rhwystro? Beth allai eich gwneud yn fwy tebygol o wneud?
- I ba raddau, os o gwbl, rydych yn meddwl y byddwch chi'n archwilio'n rhagweithiol y ffynonellau a'r cymhellion sydd y tu ôl i gynnwys ac ymddygiad ar-lein?  Pam/ pam ddim? Beth allai eich rhwystro? Beth allai eich gwneud yn fwy tebygol o wneud?

Mae'r pwyntiau ysgogi hyn yn cysylltu â'r effeithiau uniongyrchol yn y ddamcaniaeth newid. Os yw'r cwestiynau'n cael eu gofyn yn syth ar ôl gweithdy, bydd angen i'r rhai sy'n eu hateb ddyfalu yn eu hatebion.

Mae'n well os gallwch fynd yn ôl atynt ymhen mis neu fwy ar ôl y gweithdy, a gofyn iddynt beth sy'n digwydd nawr eu bod yn ôl yn y 'byd go iawn'.

***Enghraifft***

**Pa wahaniaeth, os o gwbl, fydd y pethau rydych wedi eu dysgu yn y gweithdy yma yn ei wneud i chi?**

**Ac oes yna unrhyw beth a oedd yn cael ei awgrymu yn y gweithdy na fyddwch yn ei wneud? Pam ddim?**

Cofiwch ofyn am bethau sydd ddim wedi gweithio, yn ogystal â phethau sydd wedi gweithio, er mwyn i chi gael darlun cyflawn o sut mae eich ymyriad wedi gweithio a sut y gellid ei wella.

## Cloi (5 munud)

| *Example* |
|---|
| **Hoffwn ofyn i chi nawr ysgrifennu cerdyn post at noddwr y gweithdy hwn i ddweud wrtho beth roeddech yn ei feddwl o'r gweithdy. Gallwch gynnwys unrhyw beth rydych yn meddwl y byddai arno eisiau ei wybod.** |
| Pwynt ysgogi os oes angen: gallai fod ynglŷn â beth rydych wedi ei ddysgu a oedd yn ddefnyddiol, pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud, neu sut y gellid gwella'r sesiwn. Beth bynnag rydych yn ei feddwl, mae'n bwysig iawn ei fod yn clywed. |
| **Dyna ddiwedd y cwestiynau. Oes yna rywbeth arall y byddech yn hoffi ei ychwanegu?** |

Mae'n werth caniatáu amser i ymlacio'n raddol ar y diwedd a gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cyfle olaf i ddweud beth maen nhw'n meddwl sy'n bwysig. Gall yr ymarfer cerdyn post weithio'n dda iawn os ydych yn cyfarfod wyneb yn wyneb ac yn gadael iddynt ei ysgrifennu yn y fan a'r lle –unwaith eto, bydd hyn yn gofyn iddynt ymgysylltu mewn ffordd wahanol yn hytrach na dim ond dweud yr ateb. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn ymarferol gallwch ofyn iddynt feddwl am unrhyw neges y byddent yn hoffi ei rhannu; gallant ddweud y neges a gallwch chithau ei hysgrifennu.

Os yw'r cyfweliad yn ymdrin â materion sensitif, dylech egluro sut mae cael cymorth ychwanegol pan fyddwch yn dirwyn y cyfweliad i ben. Os bydd rhywbeth annisgwyl yn codi, ac nad ydych yn gwybod i ble i gyfeirio'r unigolyn dan sylw, gallwch naill ai awgrymu ei fod yn siarad â sefydliad priodol (paratowch restr ymlaen llaw), neu os yw'n well ganddynt, addo y byddwch yn dod yn ôl at yr unigolyn.



# Pethau i'w hystyried

## Pethau i'w gwneud:

- Cael cydsyniad eich cyfranogwyr i gymryd rhan yn y cyfweliad/grŵp.
- Meddwl am y wybodaeth ddemograffig a fyddai'n fuddiol ei chael at ddibenion dadansoddi a gofyn dim ond am yr hyn rydych ei angen.
- Cysylltu'r pwyntiau ysgogi â chanlyniadau o ddiddordeb, ond gadael i bobl siarad yn eu geiriau eu hunain i ddechrau ac adlewyrchu hyn yn y dadansoddiad.
- Egluro wrth eich cyfranogwyr nad ydynt yn cael eu 'profi' (yn enwedig wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.)
- Defnyddio gwahanol ymarferion i ddod ag egni i'r sesiwn (meddwl am eiriau neu ddelweddau, ysgrifennu cerdyn post neu ddylunio poster, gweithio mewn parau, ac ati) ar ôl i bobl setlo.
- Gwrando'n astud ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthych a gofyn cwestiynau dilynol i gael eglurhad.
- Os ydych yn cyfweld plentyn, cofiwch y gallai fod yn fuddiol cael ail oedolyn yn yr ystafell at ddibenion diogelu. Gall yr oedolyn arall helpu drwy gymryd nodiadau hefyd.

## Pethau i beidio â'u gwneud:

- Gofyn cwestiynau arweiniol neu gynnwys tybiaethau yn eich cwestiynau.
- Dweud wrth y cyfranogwr beth rydych yn ei feddwl (yn eiriol neu drwy iaith eich corff), yn enwedig os ydych yn anghytuno.
- Treulio gormod o amser ar gwestiynau cynhesu yna rhedeg yn hwyr, rhuthro drwy'r cwestiynau olaf neu beidio â chyrraedd y diwedd.
- Herio neu gywiro pobl – yn enwedig yn gynnar yn y cyfweliad/grŵp. Fodd bynnag, ar ôl i'r cyfranogwr gael mwy o hyder gallwch wneud hyn yn gynnil os ydych yn meddwl y bydd yn fuddiol.